GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Polisi AaGIC ynghylch treuliau dysgu seiliedig ar ymarfer ar gyfer rhaglenni gofal iechyd cyn cofrestru a gomisiynir

Perchennog y ddogfen: AaGIC Fersiwn 3. Cyhoeddwyd Ebrill 2026

Cynnwys

Rhagair 2
1. Cyflwyniad....2
2. Cyd-destun dysgu seiliedig ar ymarfer....2
3. Pwy sydd â hawl i hawlio treuliau? 3
4. Hawliadau teithio myfyrwyr sy'n gysylltiedig â lleoliadau....3
4.1 Treuliau teithio yn ôl ac ymlaen i leoliadau 3
4.1.1 Egwyddorion cyffredinol....3
4.1.4 Math o drafnidiaeth....5
4.1.4 Gwirio milltiroedd....6
4.1.5 Costau parcio a thollau twnnel/pont....7
5. Hawliadau llety myfyrwyr sy'n gysylltiedig â lleoliadau....7
5.2 Cyfraddau llety....8
6. Gweithdrefnau hawlio a chyfrifoldebau 8
6.1 Cyfrifoldebau myfyrwyr....8
6.2 Cyfrifoldebau gweinyddwr y darparwr addysg 8
6.3 Panel Comisiynu Addysg AaGIC....9
7. Crynodeb....9

Rhagair

Ar gyfer darparwyr addysg y mae'r polisi hwn gan AaGIC ynghylch treuliau dysgu seiliedig ar ymarfer, ac mae'n ymwneud â rhaglenni nyrsio cyn cofrestru a gomisiynir, bydwreigiaeth, y proffesiwn perthynol i iechyd, a gwyddor gofal iechyd.

Gofynnir i ddarparwyr addysg sicrhau y cyfeirir at y polisi hwn fel rhan o ymdrechion marchnata'r sefydliad at ddibenion dethol a recriwtio, yn ystod prosesau cynefino myfyrwyr, a thrwy gydol y rhaglenni gofal iechyd.

Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Enw: Dr. Ian Mathieson

Swydd: Cyfarwyddwr Strategaeth Addysg a Thrawsnewid

Llofnod:

---

1. Cyflwyniad

Mae dysgu seiliedig ar ymarfer[1] yn elfen sylweddol a hanfodol o'r holl raglenni gofal iechyd. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r treuliau teithio, llety a chostau cysylltiedig y gall myfyrwyr eu hawlio wrth ymgymryd ag elfen dysgu seiliedig ar ymarfer y rhaglenni nyrsio a gomisiynir, bydwreigiaeth, perthynol i iechyd, a gwyddor gofal iechyd.

2. Cyd-destun dysgu seiliedig ar ymarfer

Fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae AaGIC wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â materion strategol ac arbenigol sy'n ymwneud â'r gweithlu ledled Cymru gan gynnwys comisiynu addysg gofal iechyd.

Mae'r polisi treuliau dysgu seiliedig ar ymarfer hwn yn ystyried manylebau contractau darparwyr addysg AaGIC sy'n mynnu bod dysgu seiliedig ar ymarfer yn digwydd yng Nghymru yn bennaf.

Cydnabyddir bod adegau pryd y gallai rhywfaint o'r dysgu seiliedig ar ymarfer ddigwydd y tu allan i Gymru, megis pan nad oes gwasanaethau arbenigol cyfatebol ar gael. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ddarparwyr addysg roi gwybod i AaGIC am amgylchiadau o'r fath cyn gwneud dyraniadau os bydd goblygiadau cyllido teithio neu lety. Ni ellir ystyried lleoliadau dewisol ar gyfer treuliau teithio a llety.

Hefyd, er y gall 'pellter' o ran cael mynediad at leoliadau adlewyrchu natur wledig Cymru, cydnabyddir y gall problemau mynediad godi dros bellteroedd byrrach ac effeithio ar amseroedd teithio, lle gallai fod angen newid trafnidiaeth gyhoeddus sawl gwaith, er enghraifft, neu lle nad oes llety dros dro ar gael.

[1] Defnyddir y termau 'dysgu seiliedig ar ymarfer' a 'lleoliadau' yn gyfnewidiol yn y ddogfen hon.

3. Pwy sydd â hawl i hawlio treuliau?

Mae gan bob myfyriwr cyn cofrestru sydd wedi cofrestru ar raglenni gofal iechyd a gomisiynir gan AaGIC yng Nghymru (rhaglenni nyrsio, bydwreigiaeth, perthynol i iechyd a gwyddor gofal iechyd, cydymaith meddygol, therapi a hylendid deintyddol) hawl i hawlio treuliau perthnasol sy'n ymwneud â'i leoliad drwy ei ddarparwr addysg fel y nodir yn y ddogfen hon. Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i bob myfyriwr a gomisiynir, ac nid dim ond i fyfyrwyr sydd wedi dewis Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

Dylai myfyrwyr sy'n dilyn rhaglen addysg gofal iechyd tra byddant yn cael eu cyflogi mewn Byrddau Iechyd yng Nghymru hawlio treuliau teithio drwy eu cyflogwr, wedyn bydd y cyflogwr yn hawlio ad-daliad gan AaGIC.

Rhaid i bob myfyriwr hawlio lwfansau Milltiroedd Cyflogwyr y GIG: Cyfradd wrth gefn.(roedd yn arfer cael ei galw'n gyfradd trafnidiaeth gyhoeddus). Bydd AaGIC yn dilyn y ffigur hwn. Bydd GIG Cymru yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am gostau modur a busnes i adolygu'r cyfraddau hyn bob mis Mai a mis Tachwedd.

4. Hawliadau teithio myfyrwyr sy'n gysylltiedig â lleoliadau

Rhaid i hawliadau teithio ymwneud â chyfnodau gorfodol o weithgarwch dysgu seiliedig ar ymarfer sy'n cael ei ddyrannu gan ddarparwyr addysg cymeradwy fel rhan o raglenni gofal iechyd a gomisiynir gan AaGIC. Ni all AaGIC ariannu costau lleoliad ar gyfer elfennau nad ydynt yn orfodol o'r rhaglen.

Ni all myfyrwyr hawlio treuliau i deithio i ganolfan ei ddarparwr addysg.

Ar gyfer myfyrwyr sy'n cael eu hariannu drwy'r system bwrsariaeth neu gyllid myfyrwyr, ystyrir mai'r 'ganolfan' yw safle arferol y darparwr addysg. Ystyrir mai'r 'ganolfan' yw'r campws lle mae rhaglen y myfyriwr yn cael ei chynnal.

Ar gyfer cyflogeion y GIG sy'n cael eu cefnogi i ymgymryd â rhaglenni cyn cofrestru a ariennir gan eu cyflogwr ac AaGIC, ystyrir mai'r 'ganolfan' yw gweithle'r myfyriwr.

4.1 Treuliau teithio yn ôl ac ymlaen i leoliadau

4.1.1 Egwyddorion cyffredinol

Pan fo modd, dylai darparwyr addysg annog cynlluniau diogel a darbodus i fyfyrwyr rannu trafnidiaeth yn ôl ac ymlaen i leoliadau. Rhaid ystyried hefyd y llwybrau mwyaf uniongyrchol sydd ar gael wrth gynllunio teithiau yn ôl ac ymlaen i leoliadau.

Gall myfyrwyr ddefnyddio cerbydau modur, gan gynnwys eu ceir eu hunain, i deithio i leoliadau (gweler adran 4.1.4.1).

Gall myfyrwyr hawlio costau tocynnau pan fyddant yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Pan fydd hi'n rhatach prynu tocyn misol/wythnosol na thalu am docyn dwyffordd dyddiol drwy gydol y lleoliad, rhaid ad-dalu swm misol/wythnosol llawn y tocyn.
Bydd rhaid i fyfyrwyr gadw pob derbynneb (h.y. tocynnau bws/trên) a'u cyflwyno gyda'u

ffurflen hawlio fel prawf o'r teithiau a wnaed. Caniateir hefyd gwirio cyfriflenni banc. Dylai pob myfyriwr ddefnyddio'r dull rhataf o deithio sydd ar gael ar gyfer eu teithiau, gan fanteisio i'r eithaf ar unrhyw dalebau neu gynlluniau teithio rhatach.

Mae gan fyfyrwyr rhan-amser nad ydynt yn gyflogedig hawl i'r un treuliau â myfyrwyr amser llawn mewn perthynas â lleoliadau ymarfer.

Ni ellir hawlio costau teithio a llety sy'n gysylltiedig â lleoliadau y tu allan i Gymru heb drafod hynny gydag AaGIC ymlaen llaw (gweler adran 6.3).

4.1.2 Cyfraddau hawliadau teithio

Mae cyfraddau hawliadau teithio yn cael eu meincnodi yn erbyn lwfansau Milltiroedd Cyflogwyr y GIG: Cyfradd wrth gefn (roedd yn arfer cael ei galw'n gyfradd trafnidiaeth gyhoeddus). Mae yno argymhelliad bod darparwyr addysg yn monitro unrhyw newidiadau i'r raddfa Wrth Gefn a rhoi gwybod i fyfyrwyr am unrhyw newid.

Dim ond os yw'r pellter rhwng preswylfa arferol myfyriwr yn ystod y tymor a'r lleoliad sydd wedi'i glustnodi iddo yn fwy na'r pellter rhwng y breswylfa yn ystod y tymor a'r 'ganolfan' y gellir hawlio treuliau.

Argymhellir bod darparwyr addysg yn rhannu'r rheol hon â myfyrwyr cyn iddynt ymuno â'r rhaglen fel bod modd iddynt gynllunio eu materion ariannol yn unol â hynny.

Rhaid defnyddio *'Google Maps route planner'* i gyfrifo amser teithio.

Enghraifft A:
Preswylfa yn ystod y tymor i'r 'ganolfan' = £5.00 y dydd
Preswylfa yn ystod y tymor i'r lleoliad sydd wedi'i glustnodi = £4.00 y dydd.

Ni chaniateir hawliad gan nad yw'r gost o deithio i'r lleoliad yn fwy na'r costau teithio dyddiol arferol i'r 'ganolfan'.
Enghraifft B:
Preswylfa yn ystod y tymor i'r 'ganolfan' = £6.00 y dydd
Preswylfa yn ystod y tymor i'r lleoliad sydd wedi'i glustnodi = £10.50 y dydd

Caniateir hawlio £4.50 y dydd. Gan fod y gost o deithio i'r lleoliad yn fwy na'r costau teithio dyddiol arferol, gellir hawlio'r gwahaniaeth rhwng y ddau swm.
Enghraifft C:
Preswylfa yn ystod y tymor i'r 'ganolfan' = £6.00 y dydd
Preswylfa yn ystod y tymor i'r lleoliad sydd wedi'i glustnodi = £6.00 y dydd

Ni chaniateir hawliad gan nad yw'r gost o deithio i'r lleoliad yn fwy na'r costau teithio dyddiol arferol i'r 'ganolfan'.

4.1.3 Teithio pellach tra byddir ar leoliad

Gellir hawlio costau teithio/milltiroedd ychwanegol os oes angen i fyfyriwr deithio o'i brif leoliad i safleoedd eraill, a/neu i gyfeiriad cartref defnyddiwr gwasanaeth (os na ddarperir trafnidiaeth am ddim i'r myfyriwr).

Rhaid i unrhyw filltiroedd cymunedol pellach barhau i fod yn fwy na chost milltiroedd

dyddiol myfyriwr yn ôl ac ymlaen i'w le astudio arferol. Nid ad-delir cost teithio pellach ar ei ben ei hun os nad yw'n fwy na'r pellter hwn.
Enghraifft A:
Teithio dyddiol i'r lle astudio arferol = 35 milltir y dydd
Milltiroedd cymunedol pellach + milltiroedd yn ôl ac ymlaen i'r lleoliad = 25 milltir y dydd

Ni chaniateir hawliad gan nad yw'n fwy na theithio dyddiol arferol.
Enghraifft B:
Teithio dyddiol i'r lle astudio arferol = 35 milltir y dydd
Teithio dyddiol i'r lleoliad + milltiroedd cymunedol pellach = 40 milltir y dydd

Caniateir hawlio 5 milltir y dydd.

4.1.4 Math o drafnidiaeth

4.1.4.1 Cerbydau modur

Gall myfyrwyr sy'n defnyddio eu cerbyd modur eu hunain hawlio'r costau milltiroedd hyn. Pan fo modd, mae'n rhaid i fyfyrwyr bob amser ddefnyddio'r llwybr mwyaf uniongyrchol sydd ar gael wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'w lleoliadau.

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw cael cadarnhad gan ei yswiriwr bod ganddo yswiriant digonol ar gyfer yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cerbyd modur wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r lleoliad. Dylai hyn hefyd gynnwys cario unrhyw deithwyr os oes myfyrwyr eraill yn teithio gydag ef/hi yn y cerbyd.

Dylai myfyrwyr sy'n teithio mewn cerbyd modur preifat fod yn ymwybodol eu bod yn gwneud hynny ar eu menter eu hunain. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer ad-dalu costau teithio mewn cerbyd modur preifat yn golygu bod y darparwr addysg, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr nac unrhyw gorff arall y GIG yn derbyn unrhyw atebolrwydd am y risgiau sy'n deillio o ddefnyddio'r cerbyd modur preifat dan sylw.

Os bydd myfyrwyr eraill a ariennir gan y GIG hefyd yn teithio gyda'r myfyriwr yn ei gerbyd i'r lleoliad, gall hawlio swm ychwanegol y filltir yn unol â lwfansau Milltiroedd Cyflogwyr y GIG: Cyfradd lwfans teithwyr ar gyfer pob myfyriwr ychwanegol. Rhaid i'r myfyrwyr hyn hefyd fod yn gymwys i hawlio treuliau teithio i leoliad, ac mae'n rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod ganddo yswiriant i gludo teithwyr. Bydd angen darparu manylion y teithwyr.

Ni ellir hawlio milltiroedd os yw aelod o'r teulu neu bartner yn gyrru'r myfyriwr i leoliadau ymarfer a/neu yn ôl adref.

4.1.4.2 Tacsis

Ni chaniateir tacsis heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan AaGIC. Gellir ystyried defnyddio tacsis os bydd hyn yn golygu nad oes angen dod o hyd i lety a fyddai'n fwy costus neu lle gallai fod yn rhatach i fyfyrwyr deithio gyda'i gilydd i'r lleoliad.
Rhaid i Sefydliadau Addysg Uwch uwchgyfeirio materion i AaGIC bob blwyddyn os oes problemau mynd i'r lleoliadau a bod angen defnyddio tacsis fel mater o drefn.

Gall y darparwr addysg hefyd ddefnyddio tacsis mewn 'amgylchiadau eithafol.' Mae'r enghreifftiau'n cynnwys lle gall myfyriwr fod yn 'sownd' megis pan fydd trafnidiaeth gyhoeddus wedi'i chanslo neu wedi'i gohirio'n sylweddol, neu pan fydd car myfyriwr wedi torri i lawr ac nad yw'n gallu galw ar unrhyw fath arall o gymorth ond bod disgwyl o hyd iddo ddechrau shifft gynnar neu hwyr, neu os yw'n teithio adref yn hwyr gyda'r nos ar ôl i shifft ddod i ben. Mewn argyfwng, bydd AaGIC yn cefnogi tacsi yn yr amgylchiadau hyn heb gymeradwyaeth ôl- weithredol. Fodd bynnag, dylai rhoi gwybod i AaGIC pob mis o bob tacsi caiff ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd argyfwng er mwyn monitro unrhyw dueddiadau.

Pan ddefnyddir tacsis ond nad ydynt yn cyrraedd y trothwy 'amgylchiadau eithafol', bydd y myfyriwr yn cael ei ad-dalu yn unol â lwfansau Milltiroedd Cyflogwyr y GIG: <https://www.nhsemployers.org/articles/mileage-allowances-faqs> Cyfradd wrth gefn <https://www.nhsemployers.org/articles/mileage-allowances-faqs> os yw'n gymwys i gael costau teithio dros a thu hwnt i'w milltiredd cartref i ganolfan (base). Nid yw AaGIC yn gofyn am gymeradwyaeth ôl- weithredol yn yr amgylchiadau hyn.

Rhaid i'r darparwr addysg roi tystiolaeth o amgylchiadau pryd y byddai tacsis y math mwyaf priodol o drafnidiaeth o ystyried y problemau a allai fod wedi codi. Dylai'r darparwr addysg roi llythyr i'r myfyriwr sy'n ardystio'n swyddogol nad oedd modd osgoi defnyddio tacsi ac y cytunwyd arno gyda Phanel Comisiynu Addysg AaGIC. Dylai'r llythyr hwn hefyd amlinellu'r rheswm pam y defnyddiwyd y math yma o drafnidiaeth. Dylid bob amser cyflwyno derbynebau gyda'r mathau yma o hawliadau.

Disgwylir i fyfyrwyr sy'n defnyddio car symudedd ei ddefnyddio i deithio yn ôl ac ymlaen i leoliadau ymarfer a hawlio yn unol â lwfansau Milltiroedd Cyflogwyr y GIG: Cyfradd wrth gefn. Ni fydd myfyrwyr yn cael eu had-dalu am gost y teithiau hyn.

Ni fyddir yn ad-dalu costau tocynnau awyren, lluniaeth, man cysgu, galwadau ffôn ac unrhyw dreuliau eraill a all fod yn gysylltiedig â lleoliad myfyriwr.

4.1.4.3 Bysiau mini

Gellir ystyried defnyddio bysiau mini os bydd hyn yn golygu nad oes angen dod o hyd i lety a fyddai'n fwy costus, tra bydd myfyrwyr ar leoliad wedi'i glustnodi, a/neu lle gallai fod yn rhatach i fyfyrwyr deithio gyda'i gilydd i'r lleoliad.

Rhaid i Sefydliadau Addysg Uwch uwchgyfeirio i AaGIC bob blwyddyn os oes problemau mynd i'r lleoliadau a bod angen defnyddio bysiau mini fel mater o drefn. Bydd angen i'r darparwr addysg hwyluso'r defnydd o fysiau mini.

4.1.4.4 Beiciau modur

Pan fydd myfyrwyr yn defnyddio beic modur i fynd i'r lleoliad, bydd y costau hyn yn cael eu had-dalu yn unol â lwfansau Milltiroedd Cyflogwyr y GIG: Cyfradd beic modur.

4.1.4 Gwirio milltiroedd

I gadarnhau bod myfyriwr yn hawlio'r milltiroedd cywir ar gyfer taith i'w leoliad ymarfer, mae'n rhaid nodi ar ei ffurflenni hawlio ei fod wedi defnyddio'r adnodd *'Google Maps*

route planner' a rhaid iddo hefyd nodi manylion unrhyw addasiad i'r llwybr e.e. yn sgil cau'r ffordd/gwaith ar y ffordd.

Mae AaGIC yn cydnabod nad y llwybr byrraf bob amser yw'r llwybr mwyaf diogel a bydd yn ystyried hawliadau sy'n cyd-fynd â mesurau lliniaru perthnasol (gweler adran 5.2).

4.1.5 Costau parcio a thollau twnnel/pont

Gall myfyrwyr hawlio costau parcio a thollau twnnel/pont os yw hynny, law yn llaw â'r milltiroedd, yn golygu bod y gost ddyddiol yn fwy na'r gost ddyddiol arferol i'r 'ganolfan'. Os felly, gall myfyrwyr hawlio'r gwahaniaeth. Rhaid i'r myfyriwr gyflwyno derbynebau (electronig neu bapur) er mwyn hawlio'r costau hyn.

Ni ellir ad-dalu costau parcio a thollau os nad yw milltiroedd yn cael eu hawlio.

5. Hawliadau llety myfyrwyr sy'n gysylltiedig â lleoliadau

5.1 Costau llety

Os oes rhaid i fyfyriwr fyw i ffwrdd o'i gyfeiriad arferol yn ystod y tymor pan fydd ar leoliad ymarfer gall hawlio cost unrhyw lety dros dro ar safle ei leoliad neu gerllaw os nad yw'n ymarferol iddo deithio yno o'i breswylfa arferol bob dydd. Bydd angen i fyfyrwyr barhau i dalu costau eu llety arferol yn ystod y tymor tra byddant ar leoliad.

Dim ond i'r cyfnodau pan glustnodir lleoliad i fyfyrwyr gan eu darparwr addysg y bydd costau llety'n berthnasol.

Fel prawf o resymoldeb, gellir ystyried llety os oes angen i fyfyriwr deithio am fwy nag awr o'i 'ganolfan' i'r lleoliad. Dylid defnyddio 'Google Maps route planner' i gyfrifo amser teithio. Lle bo modd, dylid darparu amser cychwyn er mwyn gallu cyfrifo'n fwy cywir.

Cydnabyddir y gall teithiau gan fyfyrwyr i rai lleoliadau a glustnodir mewn lleoliadau mwy gwledig yng Nghymru olygu teithio ar hyd 'ffyrdd mynediad lleol di-ddosbarth' sydd wedi'u dynodi'n swyddogol. Mae ffyrdd mynediad lleol di-ddosbarth yn cael eu hystyried yn ffyrdd cyhoeddus, yn aml mewn ardaloedd gwledig neu lai poblog, nad ydynt wedi cael dosbarthiad penodol gan awdurdod cenedlaethol neu leol (Yr Adran Drafnidiaeth 2012).

Pan fydd darparwr addysg yn gallu dangos bod y llwybrau hyn yn hanfodol i fynd i leoliad sydd wedi'i glustnodi, bydd AaGIC yn ystyried ceisiadau am lety fesul achos pan fydd y daith cyn cymryd llai nag awr. Dylai'r darparwr addysg nodi'r llwybrau arferol hyn sy'n hysbys, a chytuno arnynt gydag AaGIC ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

Rhaid i lety dros dro a drefnir gan ddarparwyr addysg neu a archebir yn uniongyrchol gan fyfyrwyr fodloni safonau diogelwch safonol a chaniatáu mynediad rhesymol at gyfleusterau arlwyo, golchi dillad, ymolchi a Wi-fi. Rhaid i lety hefyd fodloni gofynion crefyddol a diwylliannol perthnasol y myfyrwyr.

Bydd costau llety'r lleoliad yn cael eu had-dalu am holl gyfnod y lleoliad, pa bynnag

batrwm shifft y bydd y myfyriwr yn ei ddilyn.

Nid yw costau llety'n berthnasol os mai cartref y myfyriwr ei hun, cartref ei rieni, neu gartref ei deulu yw ei lety dros dro ar leoliad.

Gall myfyrwyr hawlio cost un daith ddwyffordd wythnosol rhwng eu llety dros dro ar leoliad a'u preswylfa arferol yn ystod y tymor.
Gall darparwyr addysg archebu a thalu costau llety ar ran y myfyriwr a'i hawlio'n uniongyrchol gan AaGIC.

5.2 Cyfraddau llety

Gellir hawlio hyd at £65 ar gyfer costau llety . Os nad yw'n bosibl dod o hyd i lety ar y gyfradd hon, dylai darparwyr addysg gyflwyno ceisiadau am gostau ychwanegol cyn gynted â phosibl i Banel Comisiynu Addysg AaGIC i'w hadolygu: Bydd y Panel yn ymateb cyn gynted â phosib i geisiadau am gyllid ychwanegol i alluogi darparwyr addysg i sicrhau llety am y pris gorau. HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk Bydd y Panel yn ymateb cyn gynted â phosibl i geisiadau am gyllid ychwanegol i alluogi darparwyr addysg i sicrhau llety am y pris gorau.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg ystyried opsiynau llety darbodus lle bynnag y bo modd, gan gynnwys dod o hyd i archebion bloc addas a llety i fyfyrwyr a rennir, ar gyfer cyfnodau perthnasol o ddysgu seiliedig ar ymarfer.

Lle bynnag y bo modd, dylid cyflwyno ceisiadau am gostau llety dros £65 i'r Panel er mwyn caniatáu 8 wythnos o rybudd ynghylch lleoliad i fyfyriwr yn unol â safonau contractau addysg AaGIC.

6. Gweithdrefnau hawlio a chyfrifoldebau

6.1 Cyfrifoldebau myfyrwyr

Dylid cyflwyno ffurflen hawlio i ddarparwr addysg y myfyriwr gyda'r holl dystiolaeth a derbynebau gofynnol sy'n gysylltiedig â theithio a llety. Dylid cynghori myfyrwyr i wneud llungopi o'u hawliad a'r holl dystiolaeth ategol gan y bydd angen iddynt gyfeirio atynt os bydd unrhyw anghydfod yn codi.

Rhaid cyflwyno hawliadau cyn pen 3 mis i'r diwrnod olaf ar leoliad. Os bydd myfyriwr yn cyflwyno hawliad y tu allan i'r terfyn amser, dylid ei ddychwelyd ato ac ni chaiff ei ad-dalu heb fesurau lliniaru clir.

6.2 Cyfrifoldebau gweinyddwr y darparwr addysg

Rhaid bob amser cyflwyno tystiolaeth berthnasol ynghylch costau teithio a chyfraddau ac archebion llety er mwyn cefnogi hawliadau. Ni ddylai darparwyr addysg brosesu hawliadau lle nad oes tystiolaeth wedi'i darparu. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno ar anfoneb, derbynneb neu lythyr ar bapur pennawd. Os na all myfyriwr gael gafael ar y dystiolaeth ategol sy'n ofynnol am ryw reswm, ni fydd modd ystyried yr hawliad.

O ran hawliadau llety, mae'n rhaid i'r rhain gynnwys cymaint â phosibl o wybodaeth i gefnogi hawliadau teithio a llety. Dylai darparwyr addysg ddefnyddio'r Templed a argymhellir yn **Atodiad 1**.

Ar ôl i fyfyriwr gyflwyno ffurflen hawlio, rhaid iddi gael ei gwirio'n llawn gan weinyddwr y darparwr addysg i sicrhau bod yr hawliad yn gywir, yn unol â'r profiad ar leoliad ymarfer, a'i chyflwyno ar y fersiwn ddiweddaraf o ffurflen y darparwr addysg. Ar ôl ei gwirio a'i dilysu, dylid ardystio'r hawliad drwy ddarllen, llofnodi a dyddio'r datganiad.

Dylid rhoi gwybod i'r myfyriwr os bydd gweinyddwr y darparwr addysg yn gwneud unrhyw newidiadau i'w hawliad, ac fe ddylid gwneud hynny cyn prosesu ei ffurflen hawlio. Rhaid i'r darparwr addysg roi gwybod i fyfyrwyr am amserlenni ar gyfer cyflwyno ffurflenni hawlio treuliau lleoliadau ymarfer er mwyn rheoli eu disgwyliadau ynghylch pryd y bydd eu hawliadau'n cael eu hasesu a'u talu.

6.3 Panel Comisiynu Addysg AaGIC

Mae Panel Comisiynu Addysg AaGIC: HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu hawliadau sydd y tu allan i'r prosesau hawlio treuliau arferol sydd wedi'u nodi yn y canllaw hwn. Bydd y Panel yn gwneud ei orau i ymateb cyn gynted ag y bo'n ymarferol i hawliadau treuliau a gyflwynir. Rhoddir gwybod i'r Sefydliad Addysg Uwch perthnasol pan fydd y Panel yn cael ei atal rhag cyfarfod neu pan fydd penderfyniadau'n cael eu gohirio am unrhyw reswm arall. Dylid gwneud cais i gyfeirio achosion brys yn gyflym at y panel.

7. Crynodeb

Wrth i sefydliadau fuddsoddi yn ansawdd addysg myfyrwyr a datblygiad proffesiynol, mae AaGIC, darparwyr addysg a darparwyr lleoliadau yn ymrwymo i wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi amodau effeithiol ar gyfer dysgu seiliedig ar ymarfer sy'n gwneud y canlynol:

- Cydnabod bod diogelwch a lles myfyrwyr yn hanfodol i'w cyfranogiad wrth ddarparu gofal tosturiol ac effeithiol.

- Darparu cyfleoedd sy'n gwella dealltwriaeth myfyrwyr o anghenion iechyd y boblogaeth leol ar draws rhanbarthau Cymru.

- Annog addysg a hyfforddiant doeth o ran hinsawdd sy'n lleihau ôl troed carbon cyn belled ag y bo modd ac yn gwella arferion cynaliadwy.

- Defnyddio arian cyhoeddus mewn ffordd ddarbodus.

Atodiad 1.

SAS NUMBER	UNIVERSITY STUDENT NUMBER/IDENTIFIER	FIRST NAME	SURNAME	COURSE	COHORT	TYPE	DESCRIPTION OF WHAT PAYMENT RELATES TO	POST CODE OF PLACEMENT	POST CODE OF BASE (HEI)	PLACEMENT START DATE	PLACEMENT END DATE	NO OF NIGHTS CLAIMED	PRICE PER NIGHT	TOTAL PAID	PANEL AGREEMENT	NOTES
If international quote "International" in this cell rather than SAS number.	Quoted on monitoring returns					E.G. ACCOMODATION / TRAVEL	E.G ACCOMODATION PROVIDER OR MODE OF TRANSPORT (public transport/own car etc)								provide date of panel	E.G. IF CLAIM IS FOR MORE THAN 1 INDIVIDUAL PLEASE LIST NAMES HERE